

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 28 MEDI 2021

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD IOAN THOMAS

Swyddog Cyswllt: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

Rhif Cyswllt: 34668

Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Cymeradwyo y cynlluniau arbedion amgen gwerth £75,000 a argymhellir yn **Atodiad 2** i ddisodli y cynllun arbedion presennol nad oes bellach fodd ei wireddu.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran ar ddydd Llun 06/09/2021, oedd hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr a cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cafwyd trafodaeth positif, lle roedd gan uwch reolwyr yr Adran atebion cadarn i gwestiynau'r Cyngorwyr.



1.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf, er gwaethaf yr heriau sydd wedi ein wynebu dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiectau blaenoriaeth.

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella]

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael gyda phrif risgiau'r Adran.

2.2 Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes

2.2.1 Rydym yn bwriadu parhau i bwysu am ddiwygio'r drefn yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd. Byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith o bwysu ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref i gynnwys dosbarth defnydd penodol ar gyfer tai preswyl a ddefnyddir fel llety gwyliau, ynghyd â chyflwyno trefn trwyddedu gorfodol er mwyn gallu gweithredu'r busnes. Y nod yw na ddylai unrhyw eiddo heb ganiatâd priodol ar gyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr fod yn gymwys i drosglwyddo o fand Treth Cyngor i'r rhestr ardrethi annomestig. Mae'r Cyngor yn buddsoddi'r incwm a geir o'r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint ar yr effaith andwyol y mae ail gartrefi yn ei gael ar argaeledd tai i bobl leol. Wrth i eiddo drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau mae posibilrwydd y bydd llai o eiddo yn destun y premiwm.

2.2.2 Cam allweddol wrth symud ymlaen yn 2021/22 fydd i gynnig mewnbwn adeiladol a chynhwysfawr i ymgynghoriad arfaethedig Llywodraeth Cymru ar drethiant lleol. Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar 25 Awst, a'r dyddiad cau fydd 17 Tachwedd 2021. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys 13 o gwestiynau penodol, yn ogystal â chyfle i gyflwyno unrhyw bwyntiau cysylltiedig eraill.

2.2.3 Fel rhan o'r gwaith o wireddu'r prosiect blaenoriaeth yma, bydd yr Adran Gyllid yn cydlynu ymateb y Cyngor ac yn casglu gwybodaeth a sylwadau er mwyn galluogi aelodau'r Cabinet i benderfynu ar ymateb terfynol y Cyngor i'r ymgynghoriad.

2.3 Cyflawni Arbedion

2.3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio cynlluniau arbedion.



- 2.3.2 Bellach gellir adrodd fod dros £32 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 93% o'r £34.8 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Llwyddwyd i wireddu dros 59% o'r arbedion diwygiedig ar gyfer 2020/21 gyda 57% o arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol eleni. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.
- 2.3.3 Bydd adroddiad manwl ar gynlluniau arbedion fesul adran yn cael ei gyflwyno i Gabinet 12 Hydref 2021.

3. PERFFORMIAD

- 3.1 Nodir isod drosolwg o berfformiad yr Adran hyd yn hyn.
- 3.2 Ym mis Gorffennaf 2021, derbyniwyd adroddiad perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2020/21, ble adroddwyd fod perfformiad y Gronfa yn chwartil uchaf holl gronfeydd C.P.L.L.L. Prydain. Roedd y Gronfa yn safle 16 sydd wedi gwella yn raddol dros y 30 mlynedd diwethaf ble roeddem yn safle 53.
- 3.3 Mae pandemig Covid yn parhau i effeithio a'r drefniadau'r Adran, gyda chyfraddau casglu ardrethi annomestig yn is na'r un cyfnod blaenorol; erbyn diwedd Gorffennaf 2021 roedd y raddfa gasglu (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 29.68%, sydd yn ostyngiad ar 30.07% am yr un cyfnod yn 2020/21 a 46.11% yn 2019/20.
- 3.4 Effaith arall a welir yw fod nifer ceisiadau taliad cefnogi hunan ynysu a dderbyniwyd wedi cynyddu'n sylweddol ym mis Gorffennaf o'i gymharu â'r ceisiadau wnaed rhwng mis Ebrill a Mehefin, 670 cais wedi ei dderbyn ym mis Gorffennaf o'i gymharu gyda 485 a dderbyniwyd yn chwarter cyntaf y flwyddyn.
- 3.5 Er fod gwerth dyledion amrywiol wedi gostwng ym mis Gorffennaf, mae'r lefel yn parhau'n uchel. Bu ymdrech gan uwch swyddogion i geisio datrys y dyledion, ond erbyn hyn mae angen ystyried ffordd amgen i symud ymlaen i ddatrys y sefyllfa.

4. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

- 4.1 Bu i'r Adran Gyllid danwario £86k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Bydd adolygiad manwl o sefyllfa ariannol 2021/22 yr adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Awst ar gyfer y Cyngor gyfan, a adroddir i Gabinet 12 Hydref 2021. Ni ragwelir unrhyw faterion materol i'w hadrodd hyd yn hyn.
- 4.2 Erbyn diwedd 2020/21 bu i'r Adran Gyllid wireddu dros £1.7 miliwn o arbedion dros gyfnod o chwech mlynedd ers 2015/16. Llwyddodd yr Adran Gyllid i wireddu £151k, sef 88% o'i gynlluniau arbedion perthnasol i 2020/21, gyda chynlluniau arbedion pellach gwerth £100k i'w gwireddu yn ystod 2021/22. Gweler **Atodiad 1** sydd yn cynnwys y cynlluniau arbedion.

- 4.3 Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu un cynllun 'Cynhyrchu Incwm drwy Atal Twyll' gwerth £20k yn 2020/21 (12% sydd yn weddill o gynlluniau 2021/22) a £20k perthnasol i 2021/22, yn dilyn atal cyfweliadau yn ymwneud â hawliadau twyllodrus yn y maes Budd-daliadau dros gyfnod yr argyfwng. Maent yn parhau heb eu hail gychwyn o ganlyniad i'r amgylchiadau presennol, felly rhagwelir oediad pellach mewn gwireddu'r £40k.
- 4.4 Bu i'r Adran Gyllid ail-ystyried ymarferoldeb gwerth £75k o gynllun £100k, perthnasol i 2021/22, sef cynllun 'Denu Incwm Ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol'. Cynigwyd y cynllun nôl yn 2018/19 ac felly dim ond £25k a ystyrir i fod yn ymarferol bellach. Manylir ar ddau gynllun amgen a argymhellir i ddisodli'r £75k yn **Atodiad 2**, sef cynllun gwerth £45,000 drwy arbedion treth ar gynllun newydd cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn y maes Pensiwn i weithwyr y Cyngor ac arbedion o £30,000 drwy hunan gyllido yn hytrach na benthyca yn allanol.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 – Arbedion yr Adran Gyllid

Atodiad 2 – Cynllun Arbedion Hanesyddol i'w ddisodli gyda Chynlluniau Amgen

ATODIAD 1

Arbedion yr Adran Gyllid

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
	£	£	£	£	£	£	£
<u>Gwireddwyd</u>	471,010	374,601	115,215	66,430	558,650	150,730	
Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd							5,000
<u>I'w Gwireddu</u>							
Cynhyrchu incwm drwy atal twyll						20,000	20,000
Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Gasglu Mewnol							75,000
Cyfanswm Arbedion	471,010	374,601	115,215	66,430	558,650	170,730	100,000

ATODIAD 2

Cynllun Arbedion Hanesyddol i'w ddisodli gyda Chynlluniau Amgen

Cynllun Hanesyddol nad yw am wireddu arbedion

Swm £	Cynllun Arbedion	Rhwystrau i wireddu
75,000	Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Gasglu Mewnol	Y cynllun yn un hanesyddol ac felly yr Adran yn cydnabod bellach nad oes modd i werth £75,000 o'r cynllun gael ei wireddu.
75,000	Cyfanswm	

Cynlluniau Amgen i ddisodli'r Cynllun Hanesyddol

Pennawd Cyllideb a Swm £	Cynigion	Effaith ar Drigolion
45,000	Arbedion treth ar gynllun newydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn y maes Pensiwn i weithwyr y Cyngor	Dim
30,000	Arbedion drwy hunan gyllido yn hytrach na benthyca yn allanol	Dim
75,000	Cyfanswm	